**Cofnodion Drafft**

**COFNODION O GYFARFOD IS BWYLLGOR CYLLID CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 10.30 O'R GLOCH Y BORE 1.4.26**

**YMDDIHEURIADAU**

Dim

**PRESENNOL**

Cyng. James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Martin Hughes a'r Clerc
Cyng. Giles Bentham ar zoom.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Chwefror 23ain 2026 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi ymuno ar cyfarfod ar lein oedd wedi cael ei drefnu gan Scribe ar y 26ain o Chwefror, ond yn anffodus 'roedd y cyfarfod hwn wedi cael ei anelu at Gynghorau Cymuned yn Lloegr ag oherwydd hyn 'roedd y Clerc wedi gadael y cyfarfod yn fuan. Cytunodd y Cyng. Martin Hughes i edrych ar meddalwedd gan Scribe. Datganwyd siom bod cyfarfod byth wedi cael ei drefnu o'r is-bwyllgorau. 'Roedd amcanbris wedi ei dderbyn gan Mr. Meirion Evans o £1,000 + TAW i wneud y gwaith ar y Llwybr Natur ag hefyd amcanbris o £1,300 + TAW i osod y giat a creu llwybr yng nghae chwarae Brenin Sior a cytunwyd i dderbyn y prisiau hyn. Cytunodd y Clerc gysylltu gyda Rhain Williams, Swyddog Cludiant, Cyngor Gwynedd ynglyn a chael mwy o lochesi bws.

**MATERION YN CODI**

**Cyfrifon diwedd flwyddyn y Cyngor hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026**

Rhanodd y Clerc y cyfrifon oedd wedi cael eu paratoi ag aethpwyd drwy rhain, 'roedd mwy o wariant wedi bod ar archebu goleuadau nadolig ond oedd hyn wedi cael ei ganiatau gan y Cyngor Llawn. Cytunodd y Cyng. Martin Hughes fynd drwy'r cyfrifon hyn a'i cymhaur gyda'r taflen waith oedd wedi ei greu.

**Cyfraniad gan Gynghorwyr**

Nid oedd dim cyfraniad gan unrhyw Gynghorydd.

**Ffurflen Tendro Torri Gwair**

Rhanodd y Clerc y ffurflen uchod yn ei ffurf bresennol i'r Aelodau a cytunodd y Cyng. Reg Chapman ail ysgrifennu yr uchod a'i pasio ymlaen i'r is-bwyllgor tiroedd a'i adolygu yn mis Medi.

**Cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2026/27**

Adroddodd y Clerc bod angen newid y pad yn y difibrilwr sydd ger Garej y Morfa ond bod angen talu yr anfoneb o £78.00 cyn ei dderbyn a cytunwyd bod y Clerc yn talu yr anfoneb hon ag hefyd yr anfonebau 'roedd y Cyng. Reg Chapman wedi ei dalu yn barod am staen coed a chofrestru CIC pan fyddant wedi cael eu derbyn ganddo.
Rhanodd y Clerc gopiau o gyllideb y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2026/27 ag aethpwyd drwyddi fesul item a cytunwyd ei bod yn iawn. Cytunwyd bod angen gofyn i Gyngor Gwynedd a fyddant yn fodlon cario allan archwiliad misol o'r offer yn y ddau barc chwarae.

Trafodwyd y ffurflen grantiau sydd ar wefan y Cyngor a cytunwyd bod angen newid y dyddiad sydd arni ag hefyd bod angen cysylltu gyda Mr. Elfyn Anwyl ar frys er mwyn iddo drosglwyddo enw parth y wefan i Mr. Phil Price.

**ARWYDDWYD.........................................Cadeirydd  DYDDIAD...............................................**